# Cadw

# Croeso i Waith Haearn Blaenafon

Dyfeisgarwch o Gymru'n rhoi dur i'r byd

## Beth i'w weld yng Ngwaith Haearn Blaenafon

1. Astudiwch y model metal gwych i weld sut fyddai'r gwaith haearn wedi edrych.
2. Ewch i'r Todd-dy i weld ein cyflwyniad cyffrous o sain a goleuadau sy'n dod â gwaith gwneud haearn yn fyw.
3. Cewch weld olion prin ffwrneisi sy'n dangos sut y datblygodd y broses o wneud haearn.
4. Dringwch i ben y Tŵr Cydbwyso ac edrych i lawr dros y safle; mae'r lifft gydbwyso dŵr hardd ac ymarferol yn enghraifft wych o ddyfeisgarwch Oes Fictoria.
5. Ewch i weld yr 'arddurgosfa' wych sy'n dangos sut y datblygodd Blaenafon o wneud haearn, i sicrhau bod dur yn cael ei gynhyrchu ar raddfa enfawr yn fyd-eang.
6. Galwch yn Stack Square lle'r oedd pobl yn 'gweithio gartref' tra bu'r safle ar waith.
7. Ewch am gip i siop y gwaith sy'n llawn nwyddau, ond perchnogion y gwaith haearn oedd yn pennu'r prisiau.
8. Mynedfa/siop.

Ymunwch â Cadw i fwynhau mynediad diderfyn i 131 o safleoedd hanesyddol

Mae'r Cymry wrth eu bodd â dreigiau! Gwaetha'r modd, does dim dreigiau'n byw yma, ond rydyn ni wedi cuddio un yn y llun — am hwyl. Allwch chi ei gweld?




Mae'r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae'n drosedd difrodi neu ddifwyno'r heneb.

cadw.llyw.cymru

### Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â'r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy'r amser.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

TREFTADAETH Y BYD · WORLD HERITAGE · PATRIMOINE MONDIAL